

## Tasg 2

# Yr ŵyl (2)

### Deialog

Darllenwch y ddeialog eto.

1. O ba ran o Gymru mae'r ddau gymeriad yn dod yn eich barn chi?

Nodwch 5 gair neu ymadrodd i gefnogi'r hyn rydych chi'n ei ddweud.

2. Argraffwch y darn ar y dudalen nesaf. Tanlinellwch y ffurfiau llafar yn y darn.

Ysgrifennwch y ffurfiau llenyddol yn y golofn ar y dde, gyferbyn â'r geiriau llafar.

3. Newidiwch y sgwrs fel bod dau berson o'r Gogledd yn siarad â'i gilydd.

Chris: Haia, Daya.

Daya: Ti'n mynd mas heno?

Chris: Fi'n mynd i aros yn nhŷ Lyn. Be' ti'n wneud?

Daya: Cyrri.

Chris: Sori?

Daya: Cyrri. Fi'n coginio cyrri drwy'r dydd – drwy'r bore ... drwy'r prynhawn ... drwy'r nos.

Chris: Pam?

Daya: Fi yn yr ŵyl.

Chris: O, ie, fi'n cofio nawr. Shwt mae'n mynd?

Daya: Mae'n waith caled. Fi'n helpu i baratoi'r llysiau ... *serfo* ... a clirio'r *mess*.

Chris: Oes llawer o *fess* 'te?

Daya: Wel, mae rhai pobol jyst yn towlu'r cartons cyrri gwyn ar y llawr ar ôl pennu. Dy'n nhw ddim yn rhoi nhw yn y bins.

Chris: Ofnadw!

Daya: Ac, wrth gwrs, mae rhai pobol yn byta gormod o gyrru ac maen nhw'n chwydu ar y stryd.

Chris: Ych a fi! Dim ond cyrri sy yn yr ŵyl?

Daya: Ie – ond mae gwahanol fathau o gyrru 'ma. Cyrri o wahanol rannau o'r byd.

Chris: Mae'n swnio'n grêt.

Daya: Ody, mae'r bwyd yn lyfli. Fi wedi blasu cyrri newydd sbon – o Jamaica. *Gorgeous!*

Chris: Beth arall sy'n digwydd?

Daya: Mae *experts* yn dangos sut i wneud cyrri ...

Chris: Jyst y peth ar gyfer yr adeg yma o'r flwyddyn.

Daya: Ti'n iawn. Mae pobol isie dysgu sut i gwcio rhywbeth i gynhesu nhw.

Chris: Be arall sy'n digwydd?

Daya: Mae lot fowr o stondinau cyrri, wrth gwrs a stondinau'n gwerthu cynhwysion ar gyfer gwneud cyrri. Mae pobol yn chwarae cerddoriaeth ac mae dawnswyr 'ma hefyd. Mae gweithgareddau i'r plant ...

Chris: So, ti **yn** mwynhau.

Daya: Odw a na'dw. Mae'r ŵyl yn wych ond fi ddim yn hoffi'r holl waith.

Chris: Fi'n gallu deall 'ny.

Daya: Mae pawb yn hapus iawn. Mae miloedd o bobol wedi bod 'ma – mae'n gyfle da i wneud y siopa Nadolig ac i gael pryd da o fwyd yn eitha rhad yr un pryd. Mae Dad wrth ei fodd achos mae'n gyfle da i hysbysebu'n tŷ byta ni.

Chris: Mae Mam a Dad isie dod i'ch tŷ byta chi wythnos nesaf.

Daya: O, pam?

Chris: Pen-blwydd.

Daya: Pen-blwydd dy fam, ife?

Chris: Na, pen-blwydd Dad.

Daya: O.K. 'na i weud wrth Dad. Hei, rhaid i fi fynd. Mae angen pilio winwns.

Chris: O.K., wela i di wythnos nesa.

**Ffurfiâu  
llenyddol**